**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1710 (Cy.172)

# CLEFYDAU GWENYN, CYMRU

## Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Rheoli Clefydau Gwenyn 1982 (O.S. 1982/107). Mae hefyd yn dirymu Gorchymyn Mewnforio Gwenyn 1997 (O.S. 1997/310).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer hysbysu ynghylch presenoldeb neu amheuaeth o bresenoldeb clefyd hysbysadwy neu bla hysbysadwy i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhoi'r fath hysbysiad yn sbarduno gwaharddiad ar symud pethau a allai ledaenu'r clefyd neu'r pla (erthygl 4). O dan y Gorchymyn mae clefyd y gwenyn Americanaidd a chlefyd y gwenyn Ewropeaidd ill dau yn glefydau hysbysadwy, ac mae chwilen fach y cwch ac unrhyw rywogaeth o'r gwiddonyn *Tropilaelaps* yn blâu hysbysadwy.

Pan fydd gan berson awdurdodedig sail resymol dros amau presenoldeb clefyd hysbysadwy neu bla hysbysadwy, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad yn gwahardd symud rhai eitemau penodol (erthygl 6). Os rhwystrir person awdurdodedig rhag gweithredu ei bwerau i gael mynediad, gall gyflwyno hysbysiad yn gwahardd symud rhai eitemau penodol (erthygl 6(2)).

Mae erthygl 7 yn pennu'r mesurau sy'n gymwys pan gadarnheir presenoldeb clefyd hysbysadwy. Mae erthygl 8 yn pennu'r mesurau sy'n gymwys pan gadarnheir presenoldeb pla hysbysadwy.

Gall y Cynulliad Cenedlaethol ddatgan drwy hysbysiad fod ardal yn ardal heintiedig os yw wedi'i fodloni fod pla hysbysadwy yn bresennol yn yr ardal honno (erthygl 10). Caiff y Cynulliad Cenedlaethol

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1710 (W.172)

# BEE DISEASES, WALES

## The Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, which applies in relation to Wales, revokes and replaces the Bee Diseases Control Order 1982 (S.I. 1982/107). It also revokes the Importation of Bees Order 1997 (S.I. 1997/310).

Article 3 of the Order makes provision for the notification of the presence or suspected presence of a notifiable disease or a notifiable pest to the National Assembly. The giving of such notification triggers a prohibition on the movement of things that might spread the disease or pest (article 4). Under the Order American foul brood and European foul brood are notifiable diseases, and small hive beetle and any species of the *Tropilaelaps* mite are notifiable pests.

Where an authorised person has reasonable grounds for suspecting the presence of a notifiable disease or a notifiable pest, he or she must serve a notice prohibiting the movement of certain items (article 6). If an authorised person is obstructed in the exercise of his or her power of entry he or she may serve a notice prohibiting movement of certain items (article 6(2)).

Article 7 sets out the measures that apply on confirmation of the presence of a notifiable disease. Article 8 sets out the measures that apply on confirmation of the presence of a notifiable pest.

The National Assembly may declare by notice an area to be an infected area if it is satisfied that a notifiable pest is present in that area (article 10). The National Assembly may specify in the notice that all or

bennu yn yr hysbysiad fod y cyfan neu unrhyw rai o ddarpariaethau'r Atodlen yn gymwys yn y cyfan o'r ardal heintiedig neu ran ohoni.

Mae erthygl 11 yn gweithredu darpariaethau Penderfyniad y Comisiwn 2003/881/EC (OJ Rhif L328, 17.12.2003, t.26) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/60/EC (OJ Rhif L25, 28.1.2005, t.64), sy'n gymwys ar gyfer gwenyn ar ôl iddynt gael eu mewnforio i mewn i'r Deyrnas Unedig o drydedd wlad. Mae Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1536 (Cy.153) yn gweithredu'r amodau mewnforio a gynhwysir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2003/881/EC.

Mae erthygl 12 yn mynnu fod yn rhaid darparu cyfleusterau a rhoi gwybodaeth i bersonau awdurdodedig o dan rai amgylchiadau. Mae erthygl 12 hefyd yn gwahardd defnyddio sylweddau a allai gelu presenoldeb clefyd hysbysadwy neu'i wneud yn anodd ei ganfod, oni bai fod hynny'n digwydd yn unol â hysbysiad yn gofyn triniaeth o dan erthygl 7.

Mae erthygl 13 yn darparu, os bydd unrhyw berson wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd o dan y Gorchymyn, y caiff person awdurdodedig drefnu gweithredu i gydymffurfio â'r hysbysiad ar draul y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo.

Yn unol ag adran 1(7) o Ddeddf Gwenyn 1980 (p.12), mae torri unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn neu unrhyw amod a osodir mewn unrhyw drwydded a roddir o dan y Gorchymyn yn drosedd fydd yn arwain at gosb yn dilyn collfarn ddiannod o ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5000 ar hyn o bryd).

Paratowyd arfarniad rheoliadol ar gyfer y Gorchymyn hwn, ac mae ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

any of the provisions in the Schedule apply in some or all of the infected area.

Article 11 implements the provisions of Commission Decision 2003/881/EC (OJ No. L328, 17.12.2003, p. 26) as amended by Commission Decision 2005/60/EC (OJ No. L25, 28.1.2005, p.64) that apply to bees after they have been imported into the United Kingdom from a third country. The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/1536 (W.153) implement the import conditions contained in Commission Decision 2003/881/EC.

Article 12 requires the provision of facilities and the giving of information to authorised persons in certain circumstances. Article 12 also prohibits the use of substances that may disguise the presence of or render difficult the detection of a notifiable disease other than in accordance with a notice requiring treatment under article 7.

Article 13 provides that where any person has not complied with a notice served under the Order, an authorised person may arrange for it to be complied with at the expense of the person upon whom the notice is served.

In accordance with section 1(7) of the Bees Act 1980 (c.12), breach of any provision of the Order or of any condition imposed by any licence issued under the Order constitutes an offence punishable on summary conviction by a fine not exceeding level 5 on the standard scale (currently £5000).

A regulatory appraisal has been prepared in respect of this Order and is available for inspection at the offices of the National Assembly for Wales, Department for Environment, Planning and Countryside, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1710 (Cy.172)

# CLEFYDAU GWENYN, CYMRU

## Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *27 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | *1 Gorffennaf 2006* |

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 1 o Ddeddf Gwenyn 1980(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn-

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006, daw i rym ar 1 Gorffennaf 2006 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Gorchymyn hwn-

mae "cerbyd" ("*vehicle*") yn cynnwys unrhyw long, cwch, hofrenfad neu awyren.

ystyr "clefyd hysbysadwy" ("*notifiable disease*") yw clefyd y gwenyn Americanaidd neu glefyd y gwenyn Ewropeaidd;

ystyr "cwch" ("*hive*") yw unrhyw beth sy'n cynnwys, neu sydd wedi cynnwys ar unrhyw adeg, nythfa o wenyn;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw fan gydag adeiladau neu heb adeiladau;

(**1**) 1980 c.12. Mewn perthynas ag adran 1 o Ddeddf 1980, trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r graddau y gellir eu gweithredu mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yn rhinwedd O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol yr Alban i'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan O.S. 1999/3141. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan O.S. 2002/794 a throsglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y gellir eu gweithredu mewn perthynas â Chymru, i'r Cynulliad Cenedlaethol gan O.S. 2004/3044.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1710 (W.172)

# BEE DISEASES, WALES

## The Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 June 2006* |
| *Coming into force* | *1 July 2006* |

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred by section 1 of the Bees Act 1980(**1**) and now vested in it makes the following Order-

**Title, commencement and application**

**1**. The title of this Order is the Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006, it comes into force on 1 July 2006 and applies in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**.-(1) In this Order-

"appliances" ("*offer*") means containers or any other equipment used in connection with keeping or transporting bees;

"bee pest" ("*pla gwenyn*") means any beetle, mite or similar organism that may be injurious to bees and that is in any stage of its life cycle;

"field test kit" ("*pecyn profi yn y maes*") means a portable test kit that is used for the purpose of confirming the presence of a disease without the need to send samples to a laboratory;

"hive" ("*cwch*") means any thing that contains or has at any time contained, a colony of bees;

(**1**) 1980 c.12. In respect of section 1 of the 1980 Act, the functions of the Secretary of State for Wales were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales ("the National Assembly") by virtue of S.I. 1999/672. The functions of the Secretary of State for Scotland were transferred to the Minister for Agriculture Fisheries and Food by S.I. 1999 / 3141. The functions of the Minister for Agriculture Fisheries and Food were transferred to the Secretary of State by S.I. 2002/794 and the functions of Secretary of State were, in so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly by S.I. 2004/3044.

ystyr "offer" ("*appliances*") yw cynwysyddion neu unrhyw offer arall a ddefnyddir mewn perthynas â chadw neu gludo gwenyn;

ystyr "pecyn profi yn y maes" ("*field test kit*") yw pecyn profi symudol a ddefnyddir i'r diben o gadarnhau presenoldeb clefyd heb fod angen anfon samplau i labordy;

ystyr "pla gwenyn" ("*bee pest*") yw unrhyw chwilen, gwiddonyn neu organeb debyg a all fod yn niweidiol i wenyn ac sydd ar unrhyw gam yn ei gylchred bywyd;

ystyr "pla hysbysadwy" ("*notifiable pest*") yw chwilen fach y cwch (*Aethina tumida*) neu unrhyw rywogaeth o'r gwiddonyn *Tropilaelaps*;

(2) Mae hysbysiad o dan y Gorchymyn hwn-

(a) yn gorfod bod mewn ysgrifen;

(b) yn gallu cael ei atal, ei ddiwygio neu ei ddirymu drwy hysbysiad pellach ar unrhyw adeg;

(c) yn gallu bod yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Nid yw paragraff (2)(c) yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad o dan erthygl 10.

(4) Rhaid i drwydded o dan y Gorchymyn hwn fod mewn ysgrifen, caiff fod yn gyffredinol neu'n benodol, caiff gynnwys amodau a gellir ei hatal, ei diwygio neu ei dirymu drwy hysbysiad ar unrhyw adeg.

(5) Rhaid i drwydded gyffredinol a roddir o dan y Gorchymyn hwn gael ei dwyn i sylw'r personau hynny y mae'n debyg o effeithio arnynt drwy ei chyhoeddi ym mha bapurau newydd neu gyfnodolion bynnag neu ym mha ffordd bynnag arall sy'n ofynnol ym marn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Hysbysu ynghylch amheuaeth o bresenoldeb clefyd neu bla**

**3**.-(1) Rhaid i berchennog neu'r person sy'n gyfrifol am gwch sy'n gwybod neu sy'n amau-

(a) bod unrhyw wenyn o'r cwch wedi'u heintio â chlefyd hysbysadwy;

(b) bod pla hysbysadwy yn bresennol yn y cwch; neu

(c) bod pla hysbysadwy yn bresennol yn yr un fangre neu'r un cerbyd â'r cwch,

hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith o'r ffaith honno.

(2) Rhaid i unrhyw berson arall-

(a) y mae ganddo yn ei feddiant neu o dan ei ofal; neu

(b) sy'n darganfod yng nghwrs ei waith,

bla gwenyn y mae'n gwybod neu'n amau ei fod yn bla hysbysadwy hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales";

"notifiable disease" ("*clefyd hysbysadwy*") means American foul brood or European foul brood;

"notifiable pest" means the small hive beetle (*Aethina tumida*) or any species of the *Tropilaelaps* mite;

"premises" ("*mangre*") includes any place with or without buildings; and

"vehicle" ("*cerbyd*") includes any vessel, boat, hovercraft or aircraft.

(2) A notice under this Order-

(a) must be in writing;

(b) may be suspended, amended or revoked by further notice at any time; and

(c) may be subject to conditions.

(3) Paragraph (2)(c) does not apply to a notice under article 10.

(4) A licence under this Order must be in writing, may be general or specific, may contain conditions and may be suspended, amended or revoked by notice at any time.

(5) A general licence issued under this Order must be brought to the attention of those persons whom it is likely to affect by its publication in such newspapers or periodicals or in such other manner as the National Assembly considers necessary.

**Notification of suspicion of a disease or pest**

**3**.-(1) An owner or person in charge of a hive who knows or suspects that-

(a) any bees from the hive are infected with a notifiable disease;

(b) a notifiable pest is present in the hive; or

(c) a notifiable pest is present on or in the same premises or vehicle as the hive,

must immediately notify that fact to the National Assembly.

(2) Any other person who-

(a) has in his or her possession or charge; or

(b) discovers in the course of his or her occupation,

a bee pest that he or she knows or suspects is a notifiable pest must immediately notify that fact to the

unwaith o'r ffaith honno.

## Gwahardd symud

**4**.-(1) Pan fo hysbysiad wedi'i roddi o dan erthygl 3, ni chaiff perchennog y cwch neu'r person sy'n gyfrifol amdano symud, neu ganiatáu symud, o'r fangre neu'r cerbyd lle mae'r cwch-

(a) unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, malurion cwch neu offer; neu

(b) unrhyw beth arall a allai ledaenu'r clefyd hysbysadwy neu'r pla hysbysadwy.

(2) Caiff perchennog y cwch neu'r person sy'n gyfrifol amdano, er gwaethaf darpariaethau paragraff 4 o'r Atodlen, gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer eu profi mewn labordy samplau o-

(a) unrhyw rannau o'r cwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn neu falurion cwch er mwyn penderfynu a ydynt wedi'u heintio â chlefyd hysbysadwy neu â phla hysbysadwy;

(b) unrhyw bla gwenyn er mwyn penderfynu a yw'n bla hysbysadwy;

(c) pridd o'r ardal o gwmpas y cwch er mwyn penderfynu a yw wedi'i heintio â phla hysbysadwy.

(3) Os cyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud yn yr hysbysiad hwnnw'n gymwys yn lle'r gwaharddiad ar symud ym mharagraff 4 o'r Atodlen.

(4) Os na chyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud ym mharagraff 4 o'r Atodlen yn gymwys hyd-

(a) y bydd person awdurdodedig wedi cadarnhau drwy hysbysiad ei fod wedi'i fodloni nad yw'r gwenyn wedi'u heintio â'r clefyd hysbysadwy neu nad yw'r pla hysbysadwy yn bresennol yn y cwch neu yn y fangre neu'r cerbyd lle mae'r cwch; neu

(b) y bydd perchennog y cwch neu'r person sy'n gyfrifol amdano wedi'i hysbysu fod canlyniadau profion ar samplau a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (2) yn cadarnhau nad yw'r deunydd yn y samplau wedi'i heintio neu nad yw'n bla hysbysadwy.

(5) Ni chaiff unrhyw berson sy'n rhoi hysbysiad o dan erthygl 3(2) symud neu ganiatáu symud unrhyw bla gwenyn neu unrhyw beth arall a allai ledaenu'r pla hysbysadwy o'r fangre neu'r cerbyd lle mae'r pla neu'r peth hwnnw.

(6) Caiff unrhyw berson sy'n rhoi hysbysiad o dan erthygl 3(2), er gwaethaf darpariaethau paragraff (5), gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer eu profi mewn labordy samplau o-

(a) unrhyw bla gwenyn er mwyn canfod a yw'n bla hysbysadwy;

National Assembly.

## Prohibition on removal

**4**.-(1) Where notification has been given under article 3, the owner or person in charge of the hive must not remove, or permit to be removed, from the premises or vehicle on or in which the hive is situated-

(a) any hive, bees, combs, bee products, bee pests, hive debris or appliances; or

(b) any other thing liable to spread the notifiable disease or the notifiable pest.

(2) The owner or person in charge of a hive may, notwithstanding the provisions of paragraph 4 of the Schedule, submit to the National Assembly for laboratory tests samples of-

(a) any parts of the hive, bees, combs, bee products or hive debris, to establish whether they are infected with a notifiable disease or a notifiable pest;

(b) any bee pest to establish whether it is a notifiable pest; and

(c) soil from the area surrounding the hive to establish whether it is infected with a notifiable pest.

(3) If a notice is served under article 6(1) or (2), the prohibition on removal in that notice will apply in place of the prohibition on removal in paragraph 4 of the Schedule.

(4) In the absence of a notice served under article 6(1) or (2), the prohibition on removal in paragraph 4 of the Schedule will apply until-

(a) an authorised person has confirmed by notice that he or she is satisfied that the bees are not infected with the notifiable disease or that the notifiable pest is not present in the hive or on or in the same premises or vehicle as the hive; or

(b) the owner or person in charge of the hive has been informed that the test results on samples submitted to the National Assembly under paragraph (2) confirm that the material sampled is free from infection or is not a notifiable pest.

(5) Any person who gives notification under article 3(2) is not permitted to, remove, or allow removal of, any bee pest or any other thing by which the notifiable pest is liable to be spread from the premises or vehicle on or in which it is situated.

(6) Any person who gives notification under article 3(2) may, notwithstanding the provisions of paragraph (5), submit to the National Assembly for laboratory tests samples of-

(a) any bee pest to see if it is a notifiable pest; and

(b) unrhyw beth arall, yn cynnwys pridd, er mwyn canfod a yw wedi'i heintio â phla hysbysadwy.

(7) Os cyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud yn yr hysbysiad hwnnw'n gymwys yn lle'r gwaharddiad ar symud ym mharagraff (5).

(8) Os na chyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud ym mharagraff (5) yn gymwys hyd-

(a) y bydd person awdurdodedig wedi cadarnhau drwy hysbysiad ei fod wedi'i fodloni nad yw'r pla hysbysadwy yn bresennol; neu

(b) y bydd y person a roddodd hysbysiad o dan erthygl 3(2) wedi'i hysbysu fod canlyniadau'r profion ar samplau a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (6) yn cadarnhau nad yw'r deunydd yn y samplau yn bla hysbysadwy neu nad yw wedi'i heintio â phla hysbysadwy.

(9) Rhaid pacio unrhyw sampl a gyflwynir o dan baragraff (2) neu (6) yn y fath fodd ag i osgoi hyd y mae'n bosibl y risg o ledaenu'r haint pan fydd yn cael ei gludo.

**Marcio cychod ac offer**

**5**.-(1) Caiff person awdurdodedig farcio unrhyw gwch neu offer er diben ei adnabod.

(2) Ni chaiff neb ymyrryd â marc adnabod a wnaed o dan baragraff (1) na chaniatáu ymyrryd â'r fath farc.

**Hysbysiadau'n gwahardd symud**

**6**.-(1) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros amau bod clefyd hysbysadwy neu bla hysbysadwy yn bresennol mewn unrhyw fangre neu gerbyd, rhaid iddi gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am-

(a) unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, falurion cwch neu offer sydd yn y fangre neu'r cerbyd; neu

(b) unrhyw beth arall a allai ledaenu'r clefyd hysbysadwy neu'r pla hysbysadwy sydd yn y fangre neu'r cerbyd,

hysbysiad yn gwahardd eu symud ac yn gwahardd symud unrhyw blâu gwenyn sydd ynddynt neu sy'n effeithio arnynt, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Os rhwystrir unrhyw berson awdurdodedig rhag gweithredu ei bwerau i gael mynediad o dan adran 2 o'r Ddeddf, caiff gyflwyno i'r person sy'n ymddangos i'r person awdurdodedig mai ef yw perchennog neu feddiannydd y fangre, neu mai ef yw perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am y cerbyd, hysbysiad sy'n gwahardd symud o'r fangre neu'r cerbyd-

(b) any other thing, including soil, to see if it is infected with a notifiable pest.

(7) If a notice is served under article 6(1) or (2), the prohibition on removal in that notice will apply in place of the prohibition on removal in paragraph (5).

(8) In the absence of a notice served under article 6(1) or (2), the prohibition on removal in paragraph (5) will apply until-

(a) an authorised person has confirmed by notice that he or she is satisfied that the notifiable pest is not present; or

(b) the person who gave notification under article 3(2) has been informed that the test results on samples submitted to the National Assembly under paragraph (6) confirm that the material sampled is not a notifiable pest or is not infected with a notifiable pest.

(9) Any sample submitted under paragraph (2) or (6) must be packed so as to prevent as far as possible the risk of the spread of infection during transit.

**Marking of hives and appliances**

**5**.-(1) An authorised person may mark any hive or appliance for identification purposes.

(2) No person is permitted to interfere with any identifying mark made under paragraph (1) or permit such a mark to be interfered with.

**Notices prohibiting removal**

**6**.-(1) Where an authorised person has reasonable grounds for suspecting that a notifiable disease or a notifiable pest is present on or in any premises or vehicle, he or she must serve on the owner or person in charge of-

(a) any hive, bees, combs, bee products, bee pests, hive debris or appliances situated on or in the premises or vehicle; or

(b) any other thing liable to spread the notifiable disease or the notifiable pest situated on or in the premises or vehicle,

a notice prohibiting their removal and the removal of any bee pests contained in or affecting them, except under the authority of a licence issued by the National Assembly.

(2) Where an authorised person is obstructed in the exercise of his or her power of entry under section 2 of the Act, he or she may serve on the person appearing to him or her to be the owner or occupier of the premises or the owner or person in charge of the vehicle a notice prohibiting the removal from the premises or vehicle of-

(a) unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, plâu gwenyn, malurion cwch neu offer; neu

(b) unrhyw beth arall a allai ledaenu clefyd hysbysadwy neu bla hysbysadwy.

(3) Rhaid diddymu hysbysiad a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (2) os yw person awdurdodedig yn ddiweddarach yn gallu gweithredu'n ddirwystr ei bwerau i gael mynediad o dan adran 2 o'r Ddeddf yn y fangre neu'r cerbyd.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwenyn 1980.

**Mesurau rheoli clefyd**

**7.**-(1) Caiff person awdurdodedig gadarnhau presenoldeb clefyd hysbysadwy ar sail canlyniad prawf mewn labordy neu ganlyniad prawf pecyn profi yn y maes.

(2) Pan fydd presenoldeb clefyd y gwenyn Americanaidd wedi'i gadarnhau mewn cwch-

(a) rhaid i berson awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am y cwch hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid difa unrhyw wenyn, diliau neu gynhyrchion gwenyn sy'n dod o'r cwch yn unol â'r hysbysiad;

(b) caiff person awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am y cwch hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid difa neu drin y cwch, malurion o'r cwch ac unrhyw offer neu bethau eraill a allai ledaenu'r clefyd yn unol â'r hysbysiad;

(c) caiff person awdurdodedig gyflwyno i unrhyw berson arall sy'n berchennog neu'n berson sy'n gyfrifol am unrhyw offer neu bethau eraill a allai ledaenu'r clefyd hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid eu difa neu eu trin yn unol â'r hysbysiad.

(3) Pan fydd presenoldeb clefyd y gwenyn Ewropeaidd wedi'i gadarnhau mewn cwch-

(a) rhaid i berson awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am y cwch hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid difa neu drin unrhyw wenyn, diliau neu gynhyrchion gwenyn sy'n dod o'r cwch yn unol â'r hysbysiad;

(b) caiff person awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am y cwch hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid difa neu drin y cwch, malurion o'r cwch ac unrhyw offer neu bethau eraill a allai ledaenu'r clefyd yn unol â'r hysbysiad;

(c) caiff person awdurdodedig gyflwyno i unrhyw berson arall sy'n berchennog neu'n berson sy'n gyfrifol am unrhyw offer neu bethau eraill a

(a) any hive, bees, combs, bee products, bee pests, hive debris or appliances; or

(b) any other thing liable to spread a notifiable disease or a notifiable pest.

(3) A notice served pursuant to paragraph (2) must be revoked if an authorised person is subsequently able to act without obstruction in the exercise of his or her power of entry under section 2 of the Act on or in the premises or vehicle.

(4) In this article "the Act" ("*y Ddeddf*") means the Bees Act 1980.

**Disease control measures**

**7.**-(1) The presence of a notifiable disease may be confirmed by an authorised person on the basis of a laboratory test result or a field test kit result.

(2) Where the presence of American foul brood has been confirmed in a hive, an authorised person-

(a) must serve on the owner or person in charge of the hive a notice requiring the destruction in accordance with the notice of any bees, combs or bee products from the hive;

(b) may serve on the owner or person in charge of the hive a notice requiring the destruction or treatment in accordance with the notice of the hive, debris from the hive and any appliances or other things liable to spread the disease;

(c) may serve on any other person who is the owner or person in charge of any appliances or other things liable to spread the disease a notice requiring their destruction or treatment in accordance with the notice.

(3) Where the presence of European foul brood has been confirmed in a hive, an authorised person-

(a) must serve on the owner or person in charge of the hive a notice requiring the destruction or treatment in accordance with the notice of any bees, combs or bee products from the hive;

(b) may serve on the owner or person in charge of the hive a notice requiring the destruction or treatment in accordance with the notice of the hive, debris from the hive and any appliances or other things liable to spread the disease;

(c) may serve on any other person who is the owner or person in charge of any appliances or other things liable to spread the disease a

allai ledaenu'r clefyd hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid eu difa neu eu trin yn unol â'r hysbysiad.

(4) Os, unwaith y bydd unrhyw driniaeth sy'n ofynnol yn unol â hysbysiad a gyflwynwyd o dan yr erthygl hon wedi ei chyflawni, y bydd person awdurdodedig yn cadarnhau ar sail canlyniad prawf mewn labordy neu ganlyniad prawf pecyn profi yn y maes fod y clefyd hysbysadwy'n parhau'n bresennol, caiff person awdurdodedig gyflwyno hysbysiadau pellach o dan yr erthygl hon.

**Mesurau rheoli plâu**

**8**.-(1) Caiff person awdurdodedig gadarnhau presenoldeb pla hysbysadwy ar sail canlyniad prawf mewn labordy neu archwiliad.

(2) Pan fydd presenoldeb pla hysbysadwy wedi'i gadarnhau mewn cwch neu yn yr un fangre neu gerbyd ag y mae cwch-

(a) rhaid i berson awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am y cwch hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid difa neu drin y cwch, unrhyw wenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, plâu gwenyn neu falurion o'r cwch ac unrhyw offer neu bethau eraill a allai ledaenu'r pla hysbysadwy yn unol â'r hysbysiad;

(b) caiff person awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i feddiannydd y fangre lle mae'r cwch hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid trin y pridd o gwmpas y cwch yn unol â'r hysbysiad;

(c) caiff person awdurdodedig gyflwyno i unrhyw berson arall sy'n berchennog neu'n berson sy'n gyfrifol am unrhyw offer neu bethau eraill a allai ledaenu'r pla hysbysadwy hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid eu difa neu eu trin yn unol â'r hysbysiad.

(3) Pan gadarnheir presenoldeb pla hysbysadwy mewn unrhyw fangre neu gerbyd arall, caiff person awdurdodedig gyflwyno hysbysiad yn mynnu fod yn rhaid difa neu drin unrhyw blâu gwenyn ac unrhyw bethau eraill a allai ledaenu'r pla hysbysadwy yn unol â'r hysbysiad-

(a) i unrhyw berson sydd â phla gwenyn yn ei feddiant neu o dan ei ofal;

(b) i berchennog neu i feddiannydd y fangre, neu i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am y cerbyd.

(4) Os, unwaith y bydd unrhyw driniaeth sy'n ofynnol yn unol â hysbysiad a gyflwynwyd o dan yr erthygl hon wedi ei chyflawni, y bydd person awdurdodedig yn cadarnhau ar sail canlyniad prawf mewn labordy neu archwiliad fod y pla hysbysadwy'n parhau'n bresennol, caiff person awdurdodedig gyflwyno hysbysiadau pellach o dan yr erthygl hon.

notice requiring their destruction or treatment in accordance with the notice.

(4) If, once any treatment required by a notice served under this article has been carried out, an authorised person confirms by way of a laboratory test result or a field test kit result that the notifiable disease remains, an authorised person may serve further notices under this article.

**Pest control measures**

**8**.-(1) The presence of a notifiable pest may be confirmed by an authorised person on the basis of a laboratory test result or an examination.

(2) Where the presence of a notifiable pest has been confirmed in a hive or on or in the same premises or vehicle as a hive, an authorised person-

(a) must serve on the owner or person in charge of the hive a notice requiring the destruction or treatment in accordance with the notice of the hive, any bees, combs, bee products, bee pests or debris from the hive, and any appliances or other things by which the notifiable pest is liable to be spread;

(b) may serve on the owner or occupier of the premises on which the hive is situated a notice requiring the treatment in accordance with the notice of the soil surrounding the hive;

(c) may serve on any other person who is the owner or person in charge of any appliances or other things by which the notifiable pest is liable to be spread a notice requiring their destruction or treatment in accordance with the notice.

(3) Where the presence of a notifiable pest is confirmed on or in any other premises or vehicle, an authorised person may serve a notice requiring the destruction or treatment in accordance with the notice of any bee pests and of any other things by which the notifiable pest is liable to be spread on-

(a) any person who has a bee pest in his or her possession or charge;

(b) the owner or occupier of the premises, or the owner or person in charge of the vehicle.

(4) If, once any treatment required by a notice served under this article has been carried out, an authorised person confirms on the basis of a laboratory test result or an examination that the notifiable pest remains, an authorised person may serve further notices under this article.

**Hysbysiadau a gyflwynir o dan erthygl 7 neu 8**

**9**. Rhaid i hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 7 neu 8 ddynodi-

(a) dull y difa neu'r driniaeth, a all, yn achos triniaeth, gynnwys defnyddio sylwedd arbennig neu unrhyw weithred arall i'r diben o reoli'r clefyd neu'r pla; a

(b) y dyddiad erbyn yr hwn y mae'n rhaid i'r difa neu'r driniaeth ddigwydd, neu'r cyfnod yn ystod yr hwn y mae'n rhaid i'r driniaeth ddigwydd,

a chaiff ddynodi fod yn rhaid cyflawni'r difa neu'r driniaeth gan berson awdurdodedig, ym mhresenoldeb person awdurdodedig neu o dan arolygiaeth person awdurdodedig.

**Datgan ardal heintiedig**

**10**.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol drwy hysbysiad ddatgan fod ardal lle mae wedi'i fodloni fod pla hysbysadwy yn bresennol yn ardal heintiedig.

(2) Caiff yr hysbysiad ddarparu fod y cyfan o'r darpariaethau a ddynodir yn yr Atodlen, neu unrhyw rai ohonynt, yn gymwys yn y cyfan neu unrhyw ran o'r ardal heintiedig, a bod darpariaethau gwahanol yn gymwys mewn gwahanol rannau o'r ardal heintiedig, yn ôl yr hyn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei ystyried sy'n angenrheidiol er mwyn atal lledaeniad y pla.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi unrhyw hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) ac unrhyw hysbysiad sy'n diwygio neu'n dirymu'r fath hysbysiad yn y fath fodd ag y tyb sy'n briodol er mwyn ei ddwyn i sylw'r personau sy'n debygol o gael eu heffeithio arnynt ganddo.

**Gwenyn a fewnforir**

**11**.-(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fewnforir gwenyn i mewn i'r Deyrnas unedig yn unol ag Erthygl 1(1) o Benderfyniad y Comisiwn 2003/881/EC sy'n ymwneud â'r amodau parthed iechyd anifeiliaid a'r tystysgrifau sy'n ofynnol yn achos mewnforio gwenyn (o'r rhywogaethau *Apis mellifera* a *Bombus*) o rai trydydd gwledydd, ac sy'n dirymu Penderfyniad 2000/462/EC(**1**).

(2) Pan fydd y gwenyn yn cyrraedd y wenynfa ar ben eu taith (fel y nodir ar y dystysgrif iechyd sy'n dod gyda'r gwenyn), rhaid i'r traddodai (fel y nodir ar y dystysgrif iechyd sy'n dod gyda'r gwenyn)-

(a) trosglwyddo'r mamwenyn i gewyll newydd cyn eu cyflwyno i unrhyw nythfeydd gwenyn lleol;

(**1**) OJ Rhif L328, 17.12.2003, t.26, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/60/EC (OJ L25, 28.1.2005, t.64).

**Notices served under article 7 or 8**

**9**. A notice served under article 7 or 8 must specify-

(a) the method of destruction or treatment, which may, in the case of treatment, include the use of a particular substance or any other action intended to control the disease or pest; and

(b) the date by which destruction or treatment must take place, or the period during which treatment must take place,

and may specify that the destruction or treatment is to be carried out by an authorised person, in the presence of an authorised person or under the supervision of an authorised person.

**Declaration of infected area**

**10**.-(1) The National Assembly may by notice declare an area in which it is satisfied that a notifiable pest is present to be an infected area.

(2) The notice may provide that all or any of the provisions specified in the Schedule apply in all or part of the infected area, and that different provisions apply in different parts of the infected area, as the National Assembly considers necessary to prevent the spread of the pest.

(3) The National Assembly must publish any notice issued under paragraph (1) and any notice amending or revoking such a notice in such manner as it considers appropriate to bring it to the attention of persons likely to be affected by it.

**Imported bees**

**11**.-(1) This article applies where bees are imported into the United Kingdom in accordance with Article 1(1) of Commission Decision 2003/881/EC concerning the animal health and certification conditions for imports of bees (*Apis mellifera* and *Bombus* spp.) from certain third countries and repealing Decision 2000/462/EC(**1**).

(2) When the bees arrive at the apiary of destination (as indicated on the health certificate accompanying the bees), the consignee (as indicated on the health certificate accompanying the bees) must-

(a) transfer the queen bees to new cages before they are introduced to any local colonies of bees; and

(**1**) OJ No. L328, 17.12.2003, p.26, as amended by Commission Decision 2005/60/EC (OJ L25, 28.1.2005, p. 64).

(b) anfon y cewyll y cludwyd y gwenyn ynddynt o wlad eu tarddiad, y gwenyn sy'n gweini ar y mamwenyn a deunyddiau eraill a ddaeth gyda'r mamwenyn o wlad eu tarddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer eu harchwilio mewn labordy ar gyfer presenoldeb pla hysbysadwy.

(3) Yn dilyn yr archwiliad y cyfeirir ato ym mharagraff 2(b), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol drefnu i'r cewyll, y gwenyn sy'n gweini ar y mamwenyn a'r deunyddiau eraill y cyfeirir atynt yn y paragraff hwnnw gael eu difa cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

(4) Pan fewnforir gwenyn o'r rhywogaeth *Bombus* i mewn i'r Deyrnas unedig yn unol ag Erthygl 2 o Benderfyniad y Comisiwn 2003/881/EC, rhaid i berchennog neu'r person sy'n gyfrifol am y gwenyn sicrhau bod y cynhwysydd yn yr hwn y cawsant eu cludo o wlad eu tarddiad a'r holl ddeunyddiau sy'n dod gyda'r gwenyn o wlad eu tarddiad yn cael eu difa un ai yn ystod oes y nythfa a fewnforiwyd neu yn syth ar ôl diwedd ei hoes.

**Darparu cyfleusterau a dyletswyddau eraill**

**12**.-(1) Rhaid i berchennog neu berson sy'n gyfrifol am unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn neu offer a pherchennog neu feddiannydd unrhyw fangre a pherchennog neu berson sy'n gyfrifol am unrhyw gerbyd yr amheuir fod pla hysbysadwy yn bresennol yn unrhyw un o'r pethau hynny neu ar unrhyw un ohonynt-

(a) sicrhau fod pa bynnag gyfleusterau ar gael, a

(b) rhoi pa bynnag wybodaeth (yn cynnwys gwybodaeth ynghylch nifer, lleoliad ac unrhyw symud a fu ar gychod, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn neu offer sydd neu a fu yn ei feddiant neu o dan ei ofal a gwybodaeth ynghylch lleoliad unrhyw blâu gwenyn o fewn y fangre neu'r cerbyd),

i berson awdurdodedig ag y gall y person awdurdodedig hwnnw yn rhesymol eu mynnu er dibenion y Gorchymyn hwn.

(2) Ni chaiff neb drin gwenyn gyda sylwedd a allai effeithio mewn ffordd sy'n celu presenoldeb clefyd hysbysadwy neu'n ei wneud yn anodd ei ganfod, oni bai ei fod hynny'n digwydd wrth iddo drin y gwenyn yn unol â hysbysiad a gyflwynwyd o dan erthygl 7.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol drwy drwydded eithrio unrhyw berson o'r gwaharddiad a gynhwysir ym mharagraff (2).

(4) Rhaid i unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad iddo o dan y Gorchymyn hwn neu sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau hysbysiad sy'n datgan fod ardal yn ardal heintiedig o fewn ystyr erthygl 10 gydymffurfio â darpariaethau'r hysbysiad hwnnw.

(b) send the cages in which the bees were transported from the country of origin, the attendant bees and other material that accompanied the queen bees from their country of origin to the National Assembly for a laboratory examination for the presence of a notifiable pest.

(3) Following the examination referred to in paragraph 2(b), the National Assembly must arrange for the cages, attendant bees and other material referred to in that paragraph to be destroyed as soon as reasonably practicable.

(4) Where bees of the species *Bombus* are imported into the United Kingdom in accordance with Article 2 of Commission Decision 2003/881/EC, the owner or person in charge of the bees must ensure that the container in which they are transported from the country of origin and all material that accompanies the bees from the country of origin are destroyed either during or immediately at the end of the lifespan of the imported colony.

**Provision of facilities and other obligations**

**12**.-(1) The owner or person in charge of any hive, bees, combs, bee products or appliances and the owner or occupier of any premises and the owner or person in charge of any vehicle on or in which there is suspected to be a notifiable pest must-

(a) make available all such facilities, and

(b) give such information (including information concerning the number, location and any movements of hives, bees, combs, bee products or appliances that are or have been in his or her possession or charge and information concerning the location of any bee pests on the premises or vehicle),

to an authorised person as that authorised person may reasonably require for the purposes of this Order.

(2) No person may treat bees with a substance which may have the effect of disguising the presence of, or rendering difficult the detection of, a notifiable disease unless he or she is carrying out the treatment of bees in accordance with a notice served under article 7.

(3) The National Assembly may by licence exempt any person from the prohibition contained in paragraph (2).

(4) Any person upon whom a notice is served under this Order or who is subject to the provisions of a notice declaring an area to be an infected area within the meaning of article 10 must comply with the provisions of that notice.

**Gweithredu yn achos methiant i gydymffurfio**

**13**.-(1) Os bydd unrhyw berson wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd iddo o dan y Gorchymyn hwn, caiff person awdurdodedig gymryd pa gamau bynnag ag y tyb sy'n ofynnol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion yr hysbysiad.

(2) Bydd y person y cyflwynir yr hysbysiad iddynt yn atebol am unrhyw gostau sy'n codi o dan baragraff (1).

(3) Ni fydd unrhyw gamau a gymerir gan berson awdurdodedig o dan baragraff (1) neu unrhyw gamau ar gyfer adennill costau o dan baragraff (2) yn rhagfarnu unrhyw achos mewn perthynas â throsedd sy'n deillio o fethu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd o dan y Gorchymyn hwn.

**Cyflwyno hysbysiadau**

**14**.-(1) Bydd unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn wedi'i gyflwyno'n briodol i unrhyw berson os-

(a) bydd wedi'i roi iddo'n bersonol;

(b) bydd wedi'i adael yn ei gartref neu'r cyfeiriad busnes diweddaraf y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod amdano ar ei gyfer, neu ei bostio i un o'r llefydd hynny; neu

(c) pan fo'r amodau ym mharagraff 14(2) wedi'u cyflawni, bydd wedi'i anfon ato drwy e-bost.

(2) Ystyrir fod hysbysiad a gyflwynwyd i unrhyw berson drwy e-bost wedi'i gyflwyno'n briodol iddo os bydd y person hwnnw-

(a) wedi hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol mewn ysgrifen (a heb ddiddymu'r hysbysiad) ei fod yn fodlon derbyn cyflwyno hysbysiadau o dan y Gorchymyn hwn drwy e-bost; a

(b) wedi darparu ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, mewn ysgrifen, gyfeiriad e-bost i'r diben hwnnw.

**Eithriadau**

**15**. Gellir, drwy gyfrwng trwydded a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, eithrio unrhyw berson sy'n cyflawni ymchwil neu'n dilyn cwrs hyfforddiant sy'n ymwneud â phlâu neu glefydau sy'n effeithio ar wenyn, o unrhyw rai o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, heblaw darpariaethau erthygl 11.

**Action in default**

**13**.-(1) Where any person has not complied with a notice served upon him or her under this Order, an authorised person may take such steps as he or she considers necessary to ensure that the requirements of the notice are complied with.

(2) The person upon whom the notice is served will be liable for any costs incurred under paragraph (1).

(3) Any action taken by an authorised person under paragraph (1) and any action for the recovery of costs under paragraph (2) will be without prejudice to any proceedings for an offence arising out of contravention of a notice served under this Order.

**Service of notices**

**14**.-(1) Any notice served under this Order will be properly served on any person if-

(a) it is delivered to him or her personally;

(b) it is left at or posted to his or her home or place of business last known to the National Assembly; or

(c) where the conditions in paragraph 14(2) are fulfilled, sent to him or her by e-mail.

(2) A notice served on any person by e-mail will be deemed to be properly served on him or her if he or she-

(a) has indicated in writing to the National Assembly (and has not withdrawn the indication) that he or she is willing to accept service of notices under this Order by e-mail; and

(b) has provided in writing, to the National Assembly, an e-mail address for this purpose.

**Exemptions**

**15**. Any person who is undertaking research or a course of training, relating to pests or diseases affecting bees, may, by way of licence issued by the National Assembly, be exempted from any of the provisions of this Order apart from the provisions of article 11.

**Dirymiadau**

**16**. Dirymir Gorchymyn Rheoli Clefydau Gwenyn 1982(**1**) a Gorchymyn Mewnforio Gwenyn 1997(**2**) i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

27 Mehefin 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Revocations**

**16**. The Bee Diseases Control Order 1982(**1**) and the Importation of Bees Order 1997(**2**) are revoked in so far as they apply in relation to Wales.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**)

27 June 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 1982/107.

(**2**) O.S. 1997/310.

(**3**) 1998 p.38.

(**1**) S.I. 1982/107.

(**2**) S.I. 1997/310.

(**3**) 1998 c.38.

## ATODLEN

Erthygl 10

Darpariaethau a gaiff fod yn gymwys mewn ardal heintiedig

**1**. Caiff person awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, falurion cwch neu offer y darganfyddir iddynt fod yn agored i gael eu heintio gan y pla hysbysadwy, hysbysiad sy'n cydymffurfio ag erthygl 9, yn mynnu eu bod yn difa neu drin y pethau hynny yn unol â'r hysbysiad.

**2**. Caiff person awdurdodedig gyflwyno i berchennog neu i feddiannydd unrhyw fangre lle lleolir cwch y darganfyddir iddo fod yn agored i gael ei heintio hysbysiad sy'n cydymffurfio ag erthygl 9, yn mynnu fod y pridd o gwmpas y cwch yn cael ei drin yn unol â'r hysbysiad.

**3**. Ni chaiff neb symud, neu ganiatáu symud, unrhyw gwch, gwenyn, plâu gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, malurion cwch, offer neu bethau eraill a allai ledaenu'r pla hysbysadwy i mewn i'r ardal heintiedig neu allan ohoni, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**4**. Ni chaiff neb symud, neu ganiatáu symud, unrhyw gwch, gwenyn, plâu gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, malurion cwch, offer neu bethau eraill a allai ledaenu'r pla hysbysadwy o'r fangre neu'r cerbyd lle maent, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**5**. Rhaid i berchennog neu'r person sy'n gyfrifol am unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn neu offer hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol o'i enw a'i gyfeiriad a lleoliad unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn neu offer sydd yn ei feddiant neu y mae'n gyfrifol amdanynt.

## SCHEDULE

Article 10

Provisions that may apply in an infected area

**1**. An authorised person may serve on the owner or person in charge of any hive, bees, combs, bee products, hive debris or appliances found to have been exposed to infection with the notifiable pest, a notice complying with article 9, requiring their destruction or treatment in accordance with the notice.

**2**. An authorised person may serve on the owner or occupier of any premises on which a hive found to have been exposed to infection is situated a notice complying with article 9, requiring the treatment in accordance with the notice, of the soil surrounding the hive.

**3**. No person is permitted to move, or permit to be moved, any hive, bees, bee pests, combs, bee products, hive debris, appliances or other things by which the notifiable pest is liable to be spread into or out of the infected area, except under the authority of a licence granted by the National Assembly.

**4**. No person is permitted to remove, or permit to be removed, any hive, bees, bee pests, combs, bee products, hive debris, appliances or other things by which the notifiable pest is liable to be spread from the premises or vehicle on or in which they are situated, except under the authority of a licence granted by the National Assembly.

**5**. The owner or person in charge of any hive, bees, combs, bee products or appliances must notify the National Assembly as soon as is reasonably practicable of his or her name and address and the location of any hive, bees, combs, bee products or appliances in his or her possession or charge.

ISBN 0-11-091376-0

**£3.00**

W350/07/06 ON

9 780110 913766